# BWRSARIAETHAU SKY ARTS JULIA RAUSING
**Rhaglen gan Sky Foundation**

**Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing: Telerau ac Amodau**

Mae Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing yn rhaglen gan Sky Foundation i hyrwyddo'r celfyddydau drwy gefnogi artistiaid yn y Deyrnas Unedig. Ariennir y rhaglen gan Ymddiriedolaeth Julia Rausing a bydd yn ymddangos ar Sky Arts, sianel rhad ac am ddim sy'n eiddo i Sky UK Limited ac sy'n llwyr ymroddedig i'r celfyddydau, diwylliant ac adloniant. Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth ariannol, mentora, hyfforddiant ac arddangos i alluogi unigolion talentog i ddatblygu eu hymarfer artistig a gwireddu prosiectau creadigol na fyddai'n bosibl fel arall.

**Ariannwr:**Ymddiriedolaeth Julia Rausing, The Courtyard, 25 King's Rd, Llundain SW3 5UE
**Hyrwyddwyr:** Sky Foundation & Sky Arts, Grant Way, Isleworth, Middlesex, TW7 5QD

**Yn y Telerau ac Amodau hyn:**

- ystyr "**ni**", ac "**ein"** yw Sky Foundation (a lle bo'n berthnasol, ein partneriaid - Sky Arts, Ymddiriedolaeth Julia Rausing a The Space CIC ("**The Space**") sy'n helpu i redeg y rhaglen)
- ystyr "**chi**" ac "**eich**" yw chi, y person sy'n gwneud cais am Fwrsariaeth

**Cais a Chymhwysedd**

1. I fod yn gymwys ar gyfer Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing (y "**Bwrsariaeth**"), rhaid i chi fodloni'r holl feini prawf a ganlyn:

   (a) rhaid i chi fod o leiaf 18 oed erbyn dyddiad dechrau'r rhaglen fwrsariaeth ar 25 Ionawr 2027, neu cyn hynny;
   (b) rhaid i chi fod yn ddinesydd y DU, neu wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU ers 1 Ionawr 2022;
   (c) rydych chi'n gweithio yn broffesiynol ar hyn o bryd neu'n ddiweddar fel artist dawns neu wneuthurwr dawns. Mae hyn yn golygu, ers 1 Ionawr 2022, eich bod wedi derbyn rhywfaint o incwm ar gyfer y math hwn o waith, naill ai fel gweithiwr, gweithiwr llawrydd neu dderbynnydd cyllid grant;
   (d) peidio â bod yn artist sefydledig, fel y'i diffinnir ymhellach yn y Canllawiau i Ymgeiswyr;
   (e) bod ar gael i gymryd rhan yn y rhaglen a'r broses ddethol. Mae hyn yn golygu eich bod chi: yn bwriadu preswylio yn y DU rhwng Ionawr 2027 a Ionawr 2028; nad ydych yn cynllunio bod mewn cyflogaeth amser llawn (35 awr neu fwy yr wythnos) neu addysg amser llawn rhwng Ionawr 2027 a Ionawr 2028; a’ch bod ar gael i gymryd rhan yn yr alwad ddethol ar-lein gyda Sky Arts yn ystod mis Tachwedd 2026 ac, os byddwch yn llwyddiannus, yn yr arddangosfa ddiwedd blwyddyn yn Llundain ym mis Ionawr 2028; ac
   (f) os ydych ar y rhestr fer, yn gallu darparu prawf o gymhwysedd, oedran a hunaniaeth.

2. Er mwyn gwirio eich cymhwysedd, derbynnir y dogfennau a ganlyn:

(a) Prawf oedran ar ddyddiad cyflwyno'r cais: pasbort, trwydded yrru'r DU (cerdyn llun), neu dystysgrif geni os nad oes ID â llun ar gael;
(b) Prawf o Ddinasyddiaeth y DU, neu’ch bod wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU ers 1 Ionawr 2022:
   (i) Os ydych chi'n ddinesydd y DU, byddwn yn derbyn pasbort neu dystysgrif geni y DU ynghyd â phrawf o'ch cyfeiriad cyfredol.
   (ii) Os nad ydych chi'n ddinesydd y DU ond wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU ers 1 Ionawr 2022, byddwn yn derbyn: fisa mewnfudo (h.y. trwydded waith), statws preswylydd sefydlog, statws preswylydd cyn-sefydlog, trwydded breswylio fiometrig, neu ddogfennaeth fewnfudo gyfatebol. Bydd angen tystiolaeth arnom hefyd o breswyliad yn y DU sy'n cwmpasu'r cyfnod perthnasol. Er enghraifft, 2 ddogfen o wahanol bwyntiau rhwng Ionawr 2022 a 'r dyddiad ymgeisio fel biliau'r dreth gyngor, biliau cyfleustodau, cytundebau tenantiaeth, datganiadau morgais, gohebiaeth CThEF, cadarnhad cofrestr etholiadol, neu ddatganiadau banc sy'n dangos cyfeiriad y DU.

3. Bydd Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing yn cefnogi ceisiadau gan unigolion yn unig. Nid yw grwpiau, cydweithfeydd a sefydliadau yn gymwys. Fodd bynnag, gallech weithio gyda grŵp o bobl i wireddu eich prosiect creadigol, a manylir ar hyn yn y ddogfen Canllawiau i Ymgeiswyr a bydd manylion pellach yn y cytundeb Bwrsariaeth rhyngoch chi a Sky Arts. Os cymeradwyir eich cais, byddwch yn bersonol gyfrifol am gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn.

4. Er mwyn cadw'r broses ddethol yn deg, rhaid i chi ac unrhyw un sy'n ymwneud â'ch cais beidio â gweithio i Sky Foundation, Sky UK (gan gynnwys Sky Arts), The Space neu Ymddiriedolaeth Julia Rausing, neu fod yn perthyn i rywun sy'n gweithio iddynt. Ni allwch chi, nac unrhyw un sy'n perthyn i chi neu sy'n ymwneud â'ch cais, fod yn rhan o asesu ceisiadau am y Bwrsariaethau ychwaith.

5. Dim ond un cais y caniateir i chi gyflwyno. Bydd unrhyw ail gofnod neu gofnodion ychwanegol yn cael eu tynnu a'u gwahardd fel rhai anghymwys a dim ond eich cofnod cyntaf fydd yn cael ei ystyried.

6. Mae Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing ar gyfer 2027 yn agored i artistiaid y mae eu hymarfer wedi'i wreiddio mewn creu gweithiau dawns yn unig – p'un a ydych chi'n goreograffydd, yn wneuthurwr dawns, neu'n gweithio gyda symudiad fel rhan ganolog o'ch ymarfer creadigol.

7. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi'i nodi yn y Canllawiau i Ymgeiswyr. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau hwyr. Nid ydym yn gyfrifol am geisiadau sy'n cael eu colli, eu difrodi neu sy'n hwyr oherwydd methiant cyfrifiadurol, rhwydwaith neu delathrebu.

8. Bydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu hystyried yn anghymwys.

9. I fod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais yn llawn a chyflwyno unrhyw ddeunyddiau ategol gofynnol fel y nodir yn y Canllawiau i Ymgeiswyr. Os ydych chi'n cyflwyno cais wedi'i ffilmio neu ar ffurf sain, rhaid i chi ateb y cwestiynau gorfodol a nodir yn y ffurflen gais.

10. Nid yw'n ofynnol i chi greu unrhyw ddeunyddiau newydd fel rhan o'ch cais cychwynnol a dylech gyflwyno deunyddiau presennol lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch ar y rhestr fer, byddwn yn talu ffi sefydlog o £350 i chi gan gynnwys unrhyw TAW berthnasol i greu fideo byr i'w adolygu gan y panel beirniaid, fel rhan o'r broses ddethol derfynol. Eich cyfrifoldeb chi yw unrhyw gostau eraill a gewch wrth lunio eich cais.

11. Eich cyfrifoldeb chi yw unrhyw wariant a wneir neu a ymrwymir iddo cyn dyfarnu Bwrsariaeth oni bai eich bod wedi cytuno yn ysgrifenedig gyda Sky Foundation ac Ymddiriedolaeth Julia Rausing.

12. **Anghenion Hygyrchedd:** Os oes gennych ofynion hygyrchedd ac angen cymorth i wneud cais, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth ychwanegol o hyd at £350 gan gynnwys unrhyw TAW berthnasol, i ariannu gweithiwr cymorth mynediad i gwblhau a chyflwyno cais. Cysylltwch â ni ymlaen llaw i drafod eich anghenion gan ddefnyddio'r Ffurflen Gyswllt ar y wefan neu drwy anfon e-bost atom yn jrsab@thespace.org.

13. Mae penderfyniad Sky Foundation ynghylch cymhwysedd ceisiadau, y rhai ar y rhestr fer a'r rhai a ddewisir yn derfynol. Ni fyddwn yn ymgymryd â gohebiaeth am geisiadau nad ydynt wedi'u dethol oni bai eich bod ar y rhestr fer.

14. Drwy gyflwyno cais, rydych chi'n cydsynio i Sky Foundation gynnal gwiriadau cefndir priodol os ydych ar y rhestr fer, i wirio'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu. Gall y gwiriadau cefndir hyn gynnwys gwiriad cofnod troseddol a gwiriad cyfryngau cymdeithasol. Rydych chi'n cytuno i roi unrhyw gymorth neu wybodaeth bellach sydd eu hangen i ni i gwblhau'r gwiriadau hyn.

15. Byddwn yn cydnabod eich cais pan fyddwn yn ei dderbyn gydag e-bost. Yna bydd eich cais yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r meini prawf a'r broses a nodir yn y Canllawiau i Ymgeiswyr.

**Prosiectau nad ydynt yn gymwys i gael cyllid**

16. **Nid** yw'r mathau a ganlyn o brosiectau yn **gymwys** i gael cyllid gan Fwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing:

    (a) Unigolion/prosiectau a fydd yn defnyddio'r gronfa ar gyfer prynu offer yn unig (wrth "offer" rydym yn golygu offerynnau cerdd, cyfrifiaduron, offer swyddfa, offer amlgyfrwng a chlyweledol ac ati);

    (b) Prosiectau sydd eisoes wedi dechrau y tu hwnt i'r syniad cychwynnol (h.y., wedi symud ymlaen y tu hwnt i berfformiad sgratsh, datblygiad neu waith prototeip) neu sydd wedi'u cwblhau cyn asesu'r cais;

    (c) Artistiaid/prosiectau sydd eisoes wedi derbyn cyllid grant ar gyfer yr un prosiect;

    (d) Prosiectau neu ddigwyddiadau codi arian;

    (e) Gweithgareddau at ddibenion addysgol ffurfiol a nodir gan y cwricwlwm

cenedlaethol, e.e. Gradd neu MA neu gyrsiau ardystiedig eraill.

**Dethol a Gweinyddu**

17. Bydd panel beirniadu Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing yn cynnwys unigolion o Sky Arts, The Space, Ymddiriedolaeth Julia Rausing, artistiaid proffesiynol allanol, ac arbenigwyr perthnasol eraill.

18. Mae detholiad terfynol yr artistiaid llwyddiannus yn parhau i fod yn benderfyniad y panel dethol. Mae canlyniad penderfyniad y panel yn derfynol. Ni fydd unrhyw ffordd i apelio os nad yw ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus. Gellir darparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ar y rhestr fer ar gais.

19. Os ydych chi'n llwyddiannus, rhaid i chi ddilyn y telerau ac amodau hyn a pheidio â gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect creadigol heb gael caniatâd ysgrifenedig gan Sky Foundation yn gyntaf. Os ydych chi'n rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol, efallai y cewch eich tynnu'n ôl o'r rhaglen, eich anghymhwyso neu, os ydych eisoes wedi derbyn cyllid, gofynnir i chi ei dalu'n ôl.

20. Yn ystod eich blwyddyn Bwrsariaeth, ni allwch geisio cyllid ychwanegol ar gyfer eich prosiect o ffynonellau eraill heb gael caniatâd ysgrifenedig gan Sky Foundation yn gyntaf.

21. Bydd derbynwyr llwyddiannus yn derbyn dau fath o gyllid fel rhan o'r Fwrsariaeth gyffredinol:
    i. **Y Grant Personol** ar gyfer treuliau personol (gan gynnwys costau byw), a fydd yn cael ei dalu mewn rhandaliadau ymlaen llaw yn ystod y flwyddyn; ac
    ii. **Y Grant Prosiect** ar gyfer cyflawniadau prosiectau, a fydd yn cael ei dalu yn seiliedig ar gerrig milltir y cytunir arnynt.

    Mae manylion y symiau cyllid a'r strwythur talu wedi'u nodi yn y Canllawiau i Ymgeiswyr a'r cytundeb Bwrsariaeth rhwng y derbynnydd a Sky Foundation.

    **Sylwer**: Mae taliadau bwrsariaeth yn debygol o gael eu hystyried yn incwm trethadwy. Rydych chi'n gyfrifol am reoli unrhyw rwymedigaethau treth sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad, ac rydym yn eich annog i geisio cyngor ariannol annibynnol os nad ydych yn siŵr.

22. **Y Grant Prosiect:** Bydd y grant ar gyfer eich prosiect creadigol yn cael ei dalu fesul cam drwy gydol y flwyddyn, wedi'i alinio ag adegau allweddol a chyflawniadau yn eich prosiect fel y nodir yn y Canllawiau i Ymgeiswyr. Byddwn yn gweithio gyda chi i gytuno ar set o gerrig milltir realistig sy'n adlewyrchu eich proses greadigol a phryd y bydd angen cyllid. Bydd taliadau'n cael eu gwneud wrth i'r cerrig milltir hyn gael eu cyrraedd, gan sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi ym mhob cam o ddatblygu eich gwaith. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg ac yn ymatebol, gan gydnabod bod prosiectau creadigol yn esblygu dros amser.

**Rhwymedigaethau'r Derbynnydd**

23. Yn ystod y rhaglen Bwrsariaeth, bydd angen i chi rannu diweddariadau cynnydd a thystiolaeth pan ofynnir yn rhesymol gan Sky Foundation i ddangos sut mae eich prosiect yn mynd rhagddo. Os oes gennym gwestiynau, efallai y byddwn yn oedi taliadau pellach nes eu bod yn cael eu datrys. Bydd y taliad terfynol yn dibynnu ar gadarnhad gan drydydd parti priodol bod y gwaith wedi'i gyflawni. Os nad yw hyn yn foddhaol, efallai y bydd Sky Foundation yn atal y taliad terfynol nes i chi ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen.

24. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd disgwyl i chi ymrwymo amser i'ch prosiect a chymryd rhan lawn yn y rhaglen Bwrsariaeth drwy gydol y cyfnod ariannu.

25. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn cefnogaeth mentora gan Sky Foundation, gyda’r manylion i'w dylunio o'ch cwmpas chi ar ôl dyfarnu Bwrsariaeth.

26. Os byddwch yn llwyddiannus gyda'ch cais, bydd gofyn i chi lofnodi copi o Gytundeb Bwrsariaeth Sky Foundation.

**Cyhoeddusrwydd a Hyrwyddo**

27. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd disgwyl i chi hyrwyddo'r rhaglen Bwrsariaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyhoeddusrwydd rhesymol fel cyfweliadau, derbyniadau, gweithgareddau i'r wasg a lansiadau ar gyfer Sky Foundation a Sky Arts.

28. Mae Sky Foundation yn cadw'r hawl i roi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo prosiectau a ariennir, gan gynnwys proffiliau unigol a chrynodebau prosiectau, mewn cysylltiad â Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing.

29. Os byddwch yn derbyn Bwrsariaeth, gofynnir i chi gydnabod cefnogaeth Ymddiriedolaeth Julia Rausing a Sky Foundation ar achlysuron perthnasol, gan gynnwys cydnabod Ymddiriedolaeth Julia Rausing fel prif ariannwr eich allbwn/prosiect terfynol ac ar ddeunydd hyrwyddo ar gyfer eich prosiect, lle bo'n rhesymol ymarferol. Dylid defnyddio logo Bwrsariaeth Sky Arts Julia Rausing yn eich cydnabyddiaeth lle bynnag y bo modd, yn amodol ar gymeradwyaeth Sky Foundation.

30. Bydd eich enw, eich ffotograff a bywgraffiad byr y cytunir arno ar y cyd yn cael eu defnyddio gan Sky Foundation at ddibenion cyhoeddusrwydd mewn cysylltiad â Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing. Os ydych yn llwyddiannus, byddwch yn cytuno i ganiatáu i Sky Foundation ddefnyddio eich enw a'ch tebygrwydd at ddibenion hysbysebu a chyhoeddusrwydd mewn cydweithrediad â Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing heb daliad ychwanegol.

31. Os byddwch ar y rhestr fer, byddwch yn cytuno i fod ar gael ar gyfer ffilmio a dogfennu eich gwaith ac ar gyfer unrhyw weithgaredd golygyddol cysylltiedig ar gyfer Sky Arts, yn amodol ar rybudd rhesymol yn ystod cyfnod cyllido'r fwrsariaeth.

**Eich Hawliau Creadigol (Eiddo Deallusol)**

32. **Ffilmiau amdanoch chi:** Os ydych chi'n derbyn Bwrsariaeth, gall Sky Arts wneud ffilmiau neu raglenni dogfen amdanoch chi a'ch taith yn ystod y Fwrsariaeth. Bydd Sky

UK (sy'n berchen ar Sky Arts) yn berchen ar y ffilmiau hyn, ond mae eich hawliau moesol bob amser yn cael eu diogelu – mae hyn yn golygu y byddwch bob amser yn cael credyd fel yr artist. Gall Sky Foundation ac Ymddiriedolaeth Julia Rausing ddefnyddio'r ffilmiau hyn i hyrwyddo'r Bwrsariaethau ac ar gyfer eu gweithgareddau elusennol. Ni fydd Sky UK yn defnyddio'r ffilmiau hyn yn fasnachol, ac eithrio darlledu ar Sky Arts, sianel gelfyddydol am ddim, a gweithgareddau hyrwyddo cysylltiedig.

33. **Eich gwaith eich hun:** Byddwch yn cadw perchnogaeth lawn o bopeth rydych chi'n ei greu fel rhan o'ch prosiect, gan gynnwys unrhyw gofnod digidol o'ch prosiect a ddarperir gan neu ar gyfer Sky Foundation. Os dyfarnir Bwrsariaeth i chi, bydd gofyn i chi roi caniatâd i Sky Foundation ddefnyddio eich gwaith i hyrwyddo'r Bwrsariaethau a'i ddangos fel rhan o'r rhaglen. Os yw artistiaid eraill yn perfformio yn eich gwaith neu'n cyfrannu ato, gwnewch yn siŵr eu bod wedi cytuno i hyn hefyd. Os yw Sky UK neu Sky Foundation eisiau darlledu recordiad o'ch prosiect (neu ddefnyddio unrhyw asedau cofnodi digidol eraill) ar Sky Arts, byddwn yn cytuno hyn gyda chi ar wahân ac yn sicrhau bod unrhyw daliadau gofynnol yn cael eu gwneud am eich gwaith a hawliau unrhyw gyfranwyr creadigol eraill, megis perfformwyr, cerddoriaeth neu ddeunydd hawlfraint arall a gynhwysir yn eich prosiect creadigol.

### Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth (Preifatrwydd Data)

34. **Eich data personol:** Byddwn yn trin eich gwybodaeth bersonol yn unol â chyfraith diogelu data'r DU. Rydyn ni'n ei ddefnyddio i redeg Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing, sy'n golygu efallai y bydd angen i ni ei rannu gyda Sky Arts, Ymddiriedolaeth Julia Rausing a The Space (sy'n helpu i weinyddu'r rhaglen). Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda'n cyllidwyr a'n cymdeithion llawrydd sy'n gweithio gyda ni – ond dim ond yr hyn sy'n angenrheidiol, a bob amser o dan gytundebau cyfrinachedd. Am fanylion llawn ar sut rydym yn gofalu am eich data, gweler **Hysbysiad Preifatrwydd Sky Foundation ar ein gwefan**. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth drwy gydol y rhaglen ac am gyfnod rhesymol wedyn ar gyfer gwerthuso ac adrodd.

### Eich Ymrwymiadau (Gwarantau ac Ymrwymiadau)

35. Drwy wneud cais, rydych chi'n cadarnhau ac yn addo:

    (a) nad ydych wedi gwneud ac ni fyddwch yn gwneud datganiadau yr ydych yn ymwybodol sy'n anwir neu'n niweidiol am Sky Foundation, Ymddiriedolaeth Julia Rausing, The Space, Sky Arts, Sky UK Limited, eu staff, neu artistiaid Bwrsariaeth eraill, ac ni fyddwch yn gwneud unrhyw beth a allai niweidio enw da na hyrwyddo Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing;

    (b) bod yr holl wybodaeth yr ydych chi'n ei chyflwyno yn wir, yn gywir ac yn gyflawn, ac nad ydych wedi gwneud neu ddweud unrhyw beth cyn gwneud cais a fyddai, pe bai Sky Foundation yn gwybod amdano, yn effeithio ar eu penderfyniad i ddyfarnu Bwrsariaeth i chi neu ddefnyddio eich delwedd neu waith mewn deunyddiau hyrwyddo;

    (c) nad ydych wedi gwneud ac na fyddwch yn gwneud unrhyw drefniadau a fyddai'n eich atal rhag cyflawni eich ymrwymiadau o dan y Telerau ac Amodau

hyn, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau cyhoeddusrwydd a chreu eich prosiect, neu a fyddai'n cyfyngu ar hawliau Sky Foundation o dan y Telerau ac Amodau hyn;

(d) na fyddwch yn cymryd unrhyw ddyledion neu rwymedigaethau ar ran Sky Foundation, Ymddiriedolaeth Julia Rausing neu The Space, nac yn honni bod gennych yr awdurdod i wneud hynny;

(e) wrth gymryd rhan mewn unrhyw ffilmio, ffotograffiaeth, cyfweliadau, digwyddiadau neu gyhoeddusrwydd arall ar gyfer y rhaglen Bwrsariaeth, y byddwch yn dilyn yr holl reolau yn y lleoliad (gan gynnwys rheoliadau iechyd a diogelwch a thân) ac yn dilyn cyfarwyddiadau rhesymol gan Sky Foundation neu Sky Arts;

(f) y byddwch yn dilyn yr holl safonau a chodau ymddygiad perthnasol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cyhoeddusrwydd neu greu gwaith a ariennir gan y Fwrsariaeth;

(g) yn ystod unrhyw ffilmio, ffotograffiaeth neu ymddangosiadau cyhoeddus ar gyfer y rhaglen Bwrsariaeth, y byddwch yn dilyn cyfarwyddiadau rhesymol gan Sky Arts, gan gynnwys peidio â gwisgo unrhyw beth y gellid ei ystyried yn hysbysebu neu a allai fod yn groes i reoliadau darlledu; ac

(h) y byddwch yn cadw'r holl wybodaeth am eich cais, y broses ddethol ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol a rennir gyda chi yn ystod y rhaglen yn gwbl gyfrinachol. Mae hyn yn cynnwys manylion am y broses feirniadu, ymgeiswyr eraill, symiau cyllid, ac unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif am Sky Foundation, Sky Arts neu Ymddiriedolaeth Julia Rausing. Rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw ddatganiadau cyhoeddus, postiadau cyfryngau cymdeithasol neu ddatgeliadau eraill am eich cais neu'r broses ddethol heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Sky Foundation yn gyntaf. Mae'r rhwymedigaeth hon yn parhau ar ôl i'r rhaglen ddod i ben. Os byddwch yn torri'r ymrwymiad hwn, gall Sky Foundation dynnu eich cais yn ôl, dod â'ch cyfranogiad yn y rhaglen i ben, neu ei gwneud yn ofynnol i chi ad-dalu unrhyw arian a dderbyniwyd.

36. Nid yw Sky Foundation, Ymddiriedolaeth Julia Rausing, The Space, Sky UK Limited (fel perchennog Sky Arts) a'u cyfarwyddwyr, swyddogion a gweithwyr yn gyfrifol am unrhyw golledion, costau, hawliadau, trethi na threuliau a gewch mewn cysylltiad â'r rhaglen Bwrsariaeth na'ch cais. Yr unig eithriad yw marwolaeth neu anaf personol a achosir yn uniongyrchol gan eu hesgeulustod.

**Telerau Pwysig Eraill (Darpariaethau Cyffredinol)**

37. **Cytundeb Cyfan:** Mae'r Telerau ac Amodau hyn, ynghyd â'r Canllawiau i Ymgeiswyr ac (os ydych chi'n llwyddiannus) y Cytundeb Bwrsariaeth, yn ffurfio'r cytundeb cyflawn rhyngoch chi a Sky Foundation ar gyfer Bwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing. Maent yn disodli unrhyw gytundebau neu ddealltwriaeth gynharach.

38. **Cyfraith Lywodraethu:** Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn cael eu llywodraethu gan

gyfraith Lloegr. Bydd unrhyw anghydfodau yn cael eu trin gan lysoedd Cymru a Lloegr.

39. **Dim Partneriaeth neu Asiantaeth:** Nid oes unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn creu partneriaeth, perthynas gyflogaeth neu drefniant asiantaeth rhwng Sky Foundation a chi. Nid ydych wedi'ch awdurdodi i weithredu ar ran Sky Foundation, Ymddiriedolaeth Julia Rausing neu The Space, na gwneud ymrwymiadau ar eu cyfer.

40. **Toradwyedd:** Os canfyddir bod unrhyw ran o'r Telerau ac Amodau hyn yn annilys neu'n anorfodadwy, byddwn yn ceisio eu haddasu i wneud iddynt weithio. Os nad yw hynny'n bosibl, bydd y rhan honno yn cael ei dileu, ond bydd gweddill y Telerau ac Amodau hyn yn dal i fod yn berthnasol.

41. **Newidiadau:** Gall Sky Foundation newid neu dynnu'n ôl y Telerau ac Amodau hyn, y rhaglen Bwrsariaeth neu'r broses ymgeisio ar unrhyw adeg. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau sylweddol ar wefan Sky Foundation neu'r porth ymgeisio.

42. **Hawliau Trydydd Parti:** Dim ond y bobl a'r sefydliadau a enwir yn y Telerau ac Amodau hyn all eu gorfodi. Fodd bynnag, gall Ymddiriedolaeth Julia Rausing, The Space a Sky UK Limited orfodi unrhyw hawliau a roddir iddynt yma (er enghraifft, mewn perthynas â ffilmio, darlledu neu ddefnyddio enw Sky Arts).

**Derbyn Telerau**

43. Trwy wneud cais am Fwrsariaethau Sky Arts Julia Rausing, rydych yn derbyn y Telerau ac Amodau hyn ac yn cytuno i'w dilyn.

44. Nid yw gwneud cais yn golygu y bydd Sky Foundation neu Ymddiriedolaeth Julia Rausing yn ariannu, yn cefnogi neu'n cyhoeddi eich gwaith.